Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk
Food Standards Agency

# Ymgynghoriad ar y cynnig i wahardd defnyddio bisffenol A (BPA) a bisffenolau eraill mewn deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio safbwyntiau, sylwadau ac adborth rhanddeiliaid ar ein cynnig i wahardd defnyddio bisffenol A (BPA), a bisffenolau eraill mewn deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd (FCMs). Bydd yr ymatebion a ddaw i law yn darparu tystiolaeth a fydd yn cael ei defnyddio i geisio penderfyniad ffurfiol ar statws a defnydd BPA a'i analogau mewn FCMs.

## Dyddiad lansio: 2 Hydref 2025

## Ymatebion erbyn: 24 Rhagfyr 2025

## I bwy y bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb yn bennaf?

Pob busnes bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, awdurdodau iechyd lleol a phorthladdoedd, cynghorau dosbarth, gweithgynhyrchwyr bwyd a phecynnu, manwerthwyr a dosbarthwyr, mewnforwyr ac allforwyr, grwpiau eiriolaeth diogelwch ac iechyd defnyddwyr, arbenigwyr gwyddonol ac academaidd, a'r cyhoedd.

## Diben yr ymgynghoriad

Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio safbwyntiau ar y cynnig i wahardd bisffenol A (BPA), bisffenolau eraill, a deilliadau bisffenolau mewn deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd. Nid bwriad yr ymgynghoriad hwn yw ailedrych ar y consensws gwyddonol ar risgiau BPA, ond casglu unrhyw dystiolaeth gadarn, wedi'i hadolygu gan gymheiriaid, a allai gyfiawnhau dull amgen ar gyfer BPA a'i analogau. Bydd yr ymgynghoriad hefyd yn helpu i nodi unrhyw ystyriaethau ymarferol ar gyfer gweithredu, gan gynnwys cyfnodau trosiannol ac eithriadau posib, gan osod trothwy tystiolaethol uchel ar gyfer unrhyw wrthwynebiadau.

## Sut i ymateb

Dylid cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad drwy'r ffurflen ar-lein. Os nad yw hyn yn bosib, gallwch ymateb trwy anfon e-bost i: FCM-BPA@food.gov.uk

# Cynnwys


I bwy y bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb yn bennaf? 1

- Diben yr ymgynghoriad 1
- Sut i ymateb 2
- Diffiniadau 4
- Cyflwyniad a rhesymeg dros y gwaharddiad arfaethedig 7
  - Cyd-destun Rheoleiddiol a Chamau Gweithredu Arfaethedig 7
  - Gwaharddiad Arfaethedig 8
  - Y camau nesaf 9
  - Effeithiau 9
- Y broses ymgysylltu ac ymgynghori 10
  - Y cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn: 11
- Ymatebion 12
- Mwy o wybodaeth 12

Atodiad A: Cefndir 13

- Safbwynt Gogledd Iwerddon 13
- Opsiynau Polisi – Ystyriaethau 14
- Effeithiau 15

Atodiad B: Mesurau Trosiannol 17

## Diffiniadau

Mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol i'r ymgynghoriad hwn.

**Cynhyrchion Rheoleiddiedig** yw rhai bwydydd, cynhyrchion bwyd anifeiliaid a ddeunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd y mae'n rhaid iddynt fynd trwy broses dadansoddi risg ac y mae angen eu hawdurdodi cyn y gellir eu gwerthu yn y DU. Mae rhagor o wybodaeth am y broses ymgeisio, gan gynnwys y prosesau dadansoddi risg a rheoli risg a chyfraniad gweinidogion ar gael yn:

Cefndir ar roi cynnyrch rheoleiddiedig ar y farchnad

Mae **deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd (FCMs)**, yn ddeunyddiau ac eitemau, yn eu cyflwr gorffenedig, y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd, neu sydd eisoes mewn cysylltiad â bwyd ac a fwriadwyd at y diben hwnnw.

Mae hyn yn cynnwys deunyddiau ac eitemau:

- sydd wedi'u bwriadu i ddod i gysylltiad â bwyd (er enghraifft deunydd pecynnu, cynwysyddion, offer cegin)
- sydd eisoes mewn cysylltiad â bwyd ac wedi'u bwriadu ar gyfer y defnydd hwnnw
- y gellir disgwyl yn rhesymol iddynt ddod i gysylltiad â bwyd o dan amodau defnydd arferol neu ragweladwy

Canllawiau ar awdurdodi deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd

Mae'r Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar gyfer Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yn drefniant anstatudol rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig (Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon) i sefydlu dulliau cyffredin o ymdrin â meysydd polisi lle mae pwerau wedi dychwelyd o'r UE o fewn meysydd cymhwysedd datganoledig. Paratowyd yr ymgynghoriad hwn yn unol â'r ymrwymiadau i gydweithio ar draws pedair gwlad y DU fel y nodir yn y fframwaith hwn. Felly, mae'r ymgynghoriad hwn wedi mabwysiadu dull pedair gwlad, gan ystyried trefniadau Fframwaith Windsor sy'n gymwys yng Ngogledd Iwerddon. Felly, cytunir ar argymhellion terfynol cyn eu cyflwyno i weinidogion am benderfyniad terfynol. Mae Gogledd Iwerddon yn parhau i gymryd rhan lawn yn y prosesau dadansoddi risg sy'n ymwneud â diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid, gan adlewyrchu rôl annatod Gogledd Iwerddon yn y DU a sicrhau bod unrhyw benderfyniadau a wneir yn ystyried yn llawn yr effeithiau posib ar y DU gyfan.

Mae **Cyfnodau Trosiannol** yn cyfeirio at amserlenni lle mae gofynion rheoleiddio newydd yn cael eu cyflwyno'n raddol, gan roi amser i randdeiliaid yr effeithir arnynt – fel busnesau, gweithgynhyrchwyr, neu ddefnyddwyr – addasu i'r newidiadau cyn bod rhaid cydymffurfio'n llawn. Yng nghyd-destun FCMs, mae cyfnodau trosiannol yn:

- pontio'r bwlch rhwng hen ofynion cyfreithiol a rhai newydd
- lleihau'r tarfu ar gadwyni cyflenwi a gweithrediadau'r farchnad

- caniatáu amser ar gyfer ailfformiwleiddio, profi ac ardystio deunyddiau sy'n cydymffurfio
- atal gwastraff drwy alluogi parhau i ddefnyddio neu werthu stoc bresennol
- a sicrhau gweithrediad llyfn a chymesur o ran diogelu iechyd y cyhoedd.

**Fframwaith Windsor – Ar gyfer nwyddau sy'n gymwys ar gyfer Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu Gogledd Iwerddon (NIRMS):**

- Ym mis Hydref 2023, rhoddwyd Fframwaith Windsor ar waith, gan ddarparu set unigryw o drefniadau i gefnogi llif bwydydd, gan gynnwys deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd, o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon.
- Gall y nwyddau hyn fodloni'r un safonau a gymhwysir yng ngweddill y DU o ran iechyd y cyhoedd, marchnata (gan gynnwys labelu) a bwydydd wrth iddynt symud drwy Gynllun Symud Nwyddau Manwerthu Gogledd Iwerddon (NIRMS).
- Gellir symud nwyddau a awdurdodwyd ym Mhrydain Fawr i Ogledd Iwerddon drwy Gynllun Symud Nwyddau Manwerthu Gogledd Iwerddon (NIRMS).
- Mae'r ASB yn parhau i ymrwymo i sicrhau y gall defnyddwyr ar draws y DU fod yn hyderus bod bwyd yn ddiogel a'i fod yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, hyd yn oed lle gall rheolau sy'n berthnasol i'r un math o fwyd fod ychydig yn wahanol.

**Asesiad Diogelwch** – Mae aseswyr risg yr ASB yn cyflwyno'r wyddoniaeth sy'n sail i'n cyngor. Maent yn gyfrifol am nodi a disgrifio peryglon a risgiau i iechyd, ac am asesu lefelau cysylltiad (exposure).

**Rheoli Risg** – Mae cynghorwyr polisi yn gyfrifol am allbynnau rheoli risg sy'n cynnwys ystyriaethau a phenderfyniadau ar gyfer rheoli risgiau mewn ffordd sy'n cyd-fynd â nodau iechyd y cyhoedd, rhwymedigaethau cyfreithiol ac ystyriaethau economaidd-gymdeithasol.

**Bisffenolau** – Grŵp o sylweddau cemegol sy'n gysylltiedig o ran eu strwythur â diffenylmethan (CAS 101-81-5) sydd â dau gylch carbon ffenyl – felly "bis(dau)-ffenol." Mae'r bisffenolau'n cynnwys cemegau o'r enw BPA, BPS a BPF, sef bisffenolau sy'n adweithio â gwahanol gemegau i newid y strwythur cyffredinol, a phriodweddau defnyddiol y cemegyn sy'n deillio o hynny.

**Bisffenol A (BPA)** – Dyma'r enw llafar ar y cemegyn 2,2-bis(4-hydrocsyphenyl) propan, sydd â'r rhif CAS adnabod 80-05-7. Sylwedd 151 ydyw, sydd wedi'i awdurdodi o dan Reoliad a gymathwyd 10/2011 ar ddeunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd.

**Bisffenol S (BPS)** – Dyma'r enw llafar ar y cemegyn 4,4′-dihydrocsydiffenyl sylffon, sydd â'r rhif CAS adnabod 0000080-09-1. Sylwedd 154 ydyw, sydd wedi'i awdurdodi o dan Reoliad a gymathwyd 10/2011 ar ddeunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd.

**Bisffenol F (BPF)** –Dyma'r enw llafar ar y cemegyn Bis(4-hydrocsyphenyl)methan sydd â'r rhif CAS adnabod 620-92-8

**Analogau BPA** – yn cyfeirio at sylweddau cemegol sy'n rhannu strwythur craidd tebyg i BPA ac a allai arddangos priodweddau peryglus cymharol.

## Cyflwyniad a rhesymeg dros y gwaharddiad arfaethedig

1. Defnyddiwyd bisffenol A (BPA) yn helaeth wrth gynhyrchu amryw ddeunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd, gan gynnwys farneisiau, haenau, labeli gludiog a phlastigau polycarbonad. Caiff ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer leinio deunydd pecynnu metel, fel rhai caniau a chaeadau, a chynhyrchu offer storio bwyd gwydn a chynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio. Mae BPA wedi bod yn ddeunydd poblogaidd yn y diwydiant bwyd ers degawdau oherwydd ei gryfder, ei gwydnwch a'i allu i wrthsefyll gwres.
2. Fodd bynnag, mae pryderon hirsefydlog am ei effeithiau posib ar iechyd, yn enwedig ei effaith ar iechyd atgenhedlu a system imiwnedd dynion, wedi arwain at graffu gwyddonol ac adolygiad rheoleiddiol parhaus. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae diogelwch BPA wedi cael ei asesu'n helaeth gan sawl corff rheoleiddio, gan gynnwys Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) a Sefydliad Ffederal yr Almaen ar gyfer Asesu Risg (BfR). Tynnodd yr adolygiadau hyn sylw at risgiau sylweddol yn gysylltiedig ag amlygiad i BPA, gan arwain at reoliadau llymach ledled Ewrop.
3. Yn y DU, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) hefyd wedi gwerthuso diogelwch BPA drwy'r Pwyllgor annibynnol ar Wenwyndra Cemegion mewn Bwyd, Cynhyrchion Defnyddwyr a'r Amgylchedd (COT). Adolygodd y COT y sail wyddonol ar gyfer lefel y gellir ei goddef yn ddyddiol (TDI) diwygiedig EFSA ar gyfer BPA ac asesiad 2023 y BfR. Ym mis Mehefin 2024, cyhoeddodd COT bapur safbwynt yn cadarnhau pryderon am effeithiau BPA ar systemau imiwnedd ac atgenhedlu, gan nodi bod y TDI newydd mor isel, y gallai fod yn anodd ei gyflawni'n ymarferol o dan yr amodau defnydd presennol.
4. Er nad yw'r COT wedi cynnal asesiad llawn o analogau a deilliadau BPA eto, mae'r sylweddau hyn yn debyg o ran strwythur ac maent yn dod yn fwyfwy cysylltiedig â risgiau iechyd cymharol. Fel mesur rhagofalus, mae'r ASB yn argymell y dylai unrhyw gamau rheoleiddio hefyd gynnwys y sylweddau cysylltiedig hyn er mwyn atal amnewid niweidiol.

## Cyd-destun Rheoleiddiol a Chamau Gweithredu Arfaethedig

5. Mewn ymateb i'r corff cynyddol o dystiolaeth, mabwysiadodd yr UE Reoliad y Comisiwn (EU) 2024/3190, sy'n gwahardd defnyddio a masnachu BPA, ei halwynau, bisffenolau peryglus eraill a deilliadau bisffenol peryglus mewn ystod eang o ddeunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd. Mae hyn yn cynnwys resinau epocsi a ddefnyddir mewn caniau bwyd a diod metel, plastigau gwydn mewn poteli y gellir eu hailddefnyddio, a chymwysiadau cyffredin eraill. Daeth y Rheoliad i rym ym mis Ionawr 2025 ac mae'n cynnwys cyfnod pontio o 18 mis ar gyfer y rhan fwyaf o gynhyrchion, er mwyn rhoi amser i'r diwydiant addasu. O dan Fframwaith Windsor, mae'r Rheoliad hwn yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon.

6. Yn sgil y dystiolaeth wyddonol sydd ar gael a'r opsiynau polisi a ystyriwyd, mae'r ASB yn ffafrio'r opsiwn sy'n argymell gwahardd defnyddio BPA a'i analogau mewn FCMs **(Opsiwn 3)**. Mae'r penderfyniad hwn yn dilyn gwerthusiad trylwyr o dri phrif opsiwn (mae opsiynau polisi estynedig wedi'u cynnwys yn **Atodiad A**):

    - **Opsiwn 1:** peidio â chymryd camau gweithredu ar unwaith, a fyddai'n cynnal y drefn bresennol, ond yn methu â mynd i'r afael â risgiau iechyd hysbys.
    - **Opsiwn 2:** gwahardd BPA yn unig, a allai arwain at ei amnewid ag analogau tebyg sy'n niweidiol.
    - **Opsiwn 3:** gwahardd BPA a'i analogau, sy'n diogelu iechyd y cyhoedd orau ac yn cyd-fynd â datblygiadau rheoleiddio rhyngwladol.

7. Mae'r dull a argymhellir yn adlewyrchu'r egwyddor ragofalus ac yn anelu at atal amnewid niweidiol, sicrhau cysondeb rheoleiddiol ar draws y DU a'r UE/Gogledd Iwerddon, a chefnogi'r diwydiant i drawsnewid i ddewisiadau amgen mwy diogel.

8. Lansio'r ymgynghoriad hwn yw'r cam ffurfiol cyntaf yn y broses gyfreithiol i ystyried cael gwared ar BPA fel sylwedd awdurdodedig. Er mwyn sicrhau cysondeb a diogelu iechyd y cyhoedd ledled y DU, mae'r ASB yn cynnig dull gweithredu sy'n cyd-fynd â chamau rheoleiddio'r UE. Byddai hyn yn atal amnewid BPA â chemegau niweidiol tebyg ac yn osgoi'r risg y byddai marchnadoedd mewnol yn dod yn gyrchfan ar gyfer FCMs nad ydynt yn cydymffurfio sydd wedi'u gwahardd mewn mannau eraill oherwydd pryderon diogelwch. Byddai hefyd yn cefnogi'r diwydiant drwy ddarparu eglurder a fframwaith rheoleiddio cyson ledled y DU.

## Gwaharddiad Arfaethedig

9. Disgwylir i'r gwaharddiad arfaethedig wahardd defnyddio BPA a'i analogau wrth gynhyrchu FCMs fel plastigau (er enghraifft cynwysyddion a llestri cegin y gellir eu hailddefnyddio), farneisiau a haenau (er enghraifft mewn caniau metel), labeli gludiog, inciau argraffu, rwber, siliconau, ïonau wedi'u cyfnewid a resinau.

10. Bydd y gwaharddiad arfaethedig yn gymwys i bob FCM sydd newydd ei gynhyrchu sy'n cynnwys BPA neu ei analogau. Er mwyn hwyluso cyfnod trosiannol llyfn, rydym yn cynnig mabwysiadu cyfnodau trosiannol tebyg, gyda'r un dyddiad gorffen trosiannol â'r rhai a nodir yn Rheoliad yr UE. Byddai'r rhain yn caniatáu parhau i werthu cynhyrchion sy'n cydymffurfio a weithgynhyrchwyd cyn y gwaharddiad, yn caniatáu defnyddio stoc bresennol am gyfnod penodol i leihau tarfu, ac yn darparu amserlenni estynedig ar gyfer defnyddiau penodol lle nad oes dewisiadau amgen diogel yn bodoli ar hyn o bryd, fel mewn rhai pilenni hidlo *(filtration membranes)*. Mae'r mesurau hyn wedi'u cynllunio i sicrhau cydbwysedd rhwng diogelu iechyd y cyhoedd a rhoi digon o amser i'r diwydiant addasu.

## Y camau nesaf

11. Mae'r ymgynghoriad yn amlinellu llwybr arfaethedig clir tuag at wahardd BPA mewn FCMs. Rydym yn croesawu unrhyw dystiolaeth gadarn a allai gefnogi dull amgen. Rydym yn gwerthfawrogi mewnwelediadau ac arbenigedd rhanddeiliaid yn fawr, y mae eu cyfraniadau'n chwarae rhan hanfodol wrth lunio penderfyniadau polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n gytbwys ac yn effeithiol. Mae eich ymgysylltiad yn y broses hon yn hanfodol i sicrhau bod pob safbwynt yn cael ei ystyried.
12. Yn dilyn yr ymgynghoriad, a chan ystyried y dystiolaeth a'r safbwyntiau a gyflwynwyd, byddwn yn gweithredu mesurau gweinyddol a deddfwriaethol ar yr un pryd. Cymerir mesurau gweinyddol yn unol ag Erthygl 12 (1)-(4) o [Reoliad a gymathwyd 1935/2004] i addasu cofrestr plastigau Prydain Fawr – yn benodol drwy dynnu BPA a'i analogau oddi ar y rhestr o sylweddau awdurdodedig. Ar yr un pryd, bydd Offeryn Statudol yn cael ei ddrafftio i ddiwygio Erthygl 6 o [Reoliad a gymathwyd 10/2011]. Bydd y diwygiad hwn yn cyflwyno paragraff newydd sy'n galluogi mesurau trosiannol (er enghraifft y rheiny a amlinellir yn **Atodiad B**), rhanddirymiadau (fel yr amlinellir yn **Atodiad C**), a dirymu [Rheoliad a gymathwyd 2018/213], sydd ar hyn o bryd yn llywodraethu'r defnydd o BPA mewn haenau a labeli gludiog mewn deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd. Bydd y newidiadau hyn yn amodol ar gymeradwyaeth weinidogol fel rhan o'r broses ddeddfwriaethol. Er mwyn bod yn dryloyw, mae amserlen arfaethedig ar gyfer y gwaith hwn wedi'i chynnwys yn **Atodiad D** (amserlenni dros dro yw'r rhain a gallant newid).

## Effeithiau

13. Fel rhan o'r broses dadansoddi a rheoli risg, mae'r ASB wedi asesu'r effeithiau posib a fyddai'n deillio o'r cynigion hyn. Roedd yr effeithiau posib a ystyriwyd yn cynnwys y rhai a nodwyd amlaf wrth gyflwyno neu ddiwygio cyfraith bwyd (hynny yw, effeithiau amgylcheddol, masnachol, gwleidyddol, cymdeithasol, dilysrwydd technegol, a buddiannau defnyddwyr) **Atodiad A.**
14. Nid ydym yn rhagweld unrhyw ofyniad am asesiad effaith yn seiliedig ar adolygiad COT o'r data gwenwynegol diweddaraf ar BPA. Mae'r canfyddiadau'n atgyfnerthu pryderon cynyddol ynghylch potensial BPA i darfu ar y system endocrin ac effeithio'n negyddol ar iechyd atgenhedlu, yn enwedig os bydd amlygiad am gyfnodau hir. Mae'r consensws gwyddonol hwn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer ystyried mesurau rheoleiddio i wahardd defnyddio BPA mewn FCMs.
15. Rydym yn cymhwyso'r egwyddor ragofalus yng ngoleuni tystiolaeth wyddonol sy'n dangos risg bosib i iechyd pobl. Mae'r egwyddor hon yn cefnogi ymyrryd rheoleiddiol amserol i ddiogelu iechyd y cyhoedd, hyd yn oed lle nad oes asesiad effaith economaidd-gymdeithasol ar gael eto, yn enwedig pan fydd canfyddiadau gwyddonol credadwy yn cadarnhau'r potensial am niwed.

16. Rydym yn cynnig bwrw ymlaen â gwahardd BPA a'i analogau gyda'r bwriad o gyflwyno mesurau trosiannol ac amserlenni tebyg i'r rhai sydd ar waith yn yr UE a Gogledd Iwerddon er mwyn i'r diwydiant allu addasu. Bydd y rhain yn cynnwys amserlenni gweithredu fesul cam ac eithriadau ar gyfer defnyddiau penodol lle nad oes dewisiadau amgen diogel yn bodoli. Bwriad y camau hyn yw lleihau'r tarfu economaidd a tharfu ar y gadwyn gyflenwi, gan hefyd barhau i ddiogelu defnyddwyr i lefel uchel.

17. Disgwylir i'r gwaharddiad arfaethedig gael yr effaith leiaf posib ar fusnesau, gan fod y rhan fwyaf o weithgynhyrchwyr eisoes yn symud i ffwrdd o ddefnyddio BPA mewn deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd. Er y gall gweithgareddau ailfformiwleiddio a chydymffurfiaeth olygu costau, rhagwelir y bydd modd rheoli'r rhain. Mae'r manteision yn cynnwys gwella iechyd y cyhoedd, aliniad rheoleiddiol, a mwy o ymddiriedaeth ymhlith defnyddwyr. Gall mesurau trosiannol helpu i leddfu unrhyw faich tymor byr ar fusnesau drwy roi amser i addasu. Fodd bynnag, disgwylir y bydd llawer eisoes wedi ailfformiwleiddio neu wedi cymryd camau i gydymffurfio, ac felly mae'n annhebygol y bydd diwedd rhai cyfnodau trosiannol (gweler **Atodiad A**) yn arwain at darfu sylweddol.

## Y broses ymgysylltu ac ymgynghori

18. Mae'r cwestiynau canlynol wedi'u cynllunio i gasglu adborth gan randdeiliaid ar y gwaharddiad arfaethedig ar BPA a'i analogau mewn FCMs. Nod yr ymgynghoriad yw cefnogi rhoi'r gwaharddiad hwn ar waith drwy nodi unrhyw dystiolaeth gadarn, wedi'i hadolygu gan gymheiriaid, a allai gyfiawnhau dull amgen, yn ogystal â deall y goblygiadau ymarferol i'r diwydiant a defnyddwyr.

19. Rydym yn croesawu ymatebion manwl, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i'r cwestiynau isod. Bwriad yr ymgynghoriad yw sicrhau proses dryloyw, a gaiff ei harwain gan wyddoniaeth, gan gefnogi cyfnod pontio llyfn a llawn gwybodaeth i bob sector yr effeithir arno.

20. Yn dilyn y broses ymgynghori, bydd ymatebion ar gael ar wefan yr ASB ac yn cael eu rhannu â gweinidogion.

**Y cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn:**

1. **Oes gennych unrhyw dystiolaeth wyddonol newydd a allai gefnogi dull gwahanol i'r consenswS gwyddonol presennol ar risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â BPA mewn deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd? Os oes, darparwch gyfeiriadau llawn a chrynodeb o'r canfyddiadau.**
2. **Oes gennych chi unrhyw dystiolaeth wyddonol newydd ynghylch gwenwyndra neu risgiau iechyd analogau BPA a ddefnyddir mewn deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd, yn enwedig ogymharu â BPA? (Darparwch gyfeiriadau llawn a chrynodeb o'r canfyddiadau.)**
3. **Oes defnyddiau penodol o BPA neu bisffenolau eraill mewn deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd lle byddai gwaharddiad yn cyflwyno heriau sylweddol ac anochel?<br>(Os oes, darparwch dystiolaeth a chyfiawnhad manwl.)**
4. **Ydych chi wedi cynnal neu ydych chi'n ymwybodol o unrhyw astudiaethau neu dreialon yn y diwydiant sy'n dangos ymarferoldeb neu heriau newid i ffwrdd o ddefnyddio BPA a sylweddau cysylltiedig?<br>(Rhannwch ganfyddiadau, gan gynnwys amserlenni, costau a chanlyniadau).**
5. **Pa heriau ydych chi'n eu rhagweld wrth weithredu gwaharddiad ar BPA a sylweddau cysylltiedig? (Disgrifiwch unrhyw broblemau technegol, economaidd, neu faterion yn y gadwyn gyflenwi).**
6. **Rydym yn bwriadu alinio ein cyfnodau trosiannol a'n rhanddirymiadau â rhai'r UE (fel yr amlinellir yn Atodiad B) i helpu i atal marchnad y DU rhag cael ei boddi â chynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio. Oes gennych chi unrhyw wrthwynebiadau i'r dull arfaethedig hwn?**
7. **Ydych chi'n rhagweld unrhyw ganlyniadau anfwriadol (er enghraifft, mwy o ddefnydd o sylweddau niweidiol eraill, beichiau cost, neu brinder cynnyrch) a fyddai'n deillio o waharddiad?**
8. **Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu dystiolaeth ychwanegol eraill sy'n berthnasol i'r gwaharddiad arfaethedig a'i weithrediad?**

## Ymatebion

21. Mae angen ymatebion erbyn diwedd y dydd **24 Rhagfyr 2025 am 17:00**. Yn eich ymateb, nodwch a ydych chi'n ymateb fel unigolyn preifat, neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae eich sefydliad yn eu cynrychioli).
22. Gallwch gyflwyno ymatebion drwy'r ffurflen arolwg ar-lein. Os nad yw hyn yn bosib, gallwch ymateb trwy anfon e-bost i: FCM-BPA@food.gov.uk
23. Ein nod yw cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn o fewn 3 mis ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.
24. Caiff crynodeb o'r ymatebion ei rannu â gweinidogion yng Nghymru a Lloegr.
25. I gael gwybodaeth am sut mae'r ASB yn trin eich data personol, cyfeiriwch at yr hysbysiad preifatrwydd ar gyfer ymgynghoriadau, sydd i'w gael yn www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/hysbysiad-preifatrwydd-ymgynghoriadau.

## Mwy o wybodaeth

26. Os bydd angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat sy'n haws i'w ddarllen, anfonwch fanylion at y cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, a bydd eich cais yn cael ei ystyried.
27. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori Llywodraeth y DU.
28. Ar ran yr ASB, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

**Tîm deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd**

# Atodiad A: Cefndir

Defnyddiwyd bisffenol A (BPA) yn helaeth wrth gynhyrchu amryw ddeunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd, gan gynnwys farneisiau, haenau a phlastigau polycarbonad. Caiff ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer leinio pecynnu metel, fel rhai caniau a chaeadau, a chynhyrchu offer storio bwyd plastig ar raddfa fawr. Gwnaeth gallu BPA i greu deunyddiau cryf, gwydn, a gwrthsefyll gwres ei wneud yn ddewis poblogaidd yn y diwydiant bwyd. Fodd bynnag, mae pryderon hirsefydlog am ei effeithiau posib ar iechyd, gan gynnwys ei effaith ar iechyd atgenhedlu dynion a'r system imiwnedd, wedi arwain at graffu ac adolygiadau rheoleiddiol parhaus.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae diogelwch BPA wedi cael ei adolygu'n helaeth gan sawl corff rheoleiddio, gan gynnwys Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) a Sefydliad Ffederal yr Almaen ar gyfer Asesu Risg (BfR). Tynnodd yr adolygiadau hyn sylw at y risgiau posib sy'n gysylltiedig ag amlygiad i BPA, gan arwain at reoliadau llymach yn Ewrop. Mae'r ASB, ar ôl dilyn ei phrosesau dadansoddi risg ei hunn, hefyd wedi gwerthuso diogelwch BPA drwy Bwyllgor annibynnol y DU ar Wenwyndra Cemegion mewn Bwyd, Cynhyrchion Defnyddwyr a'r Amgylchedd (COT). Gwnaeth y COT adolygu'r sail wyddonol a'r goblygiadau ar gyfer rheoli risg y Cymeriant Dyddiol Goddefadwy (TDI) newydd gan EFSA ar gyfer BPA, a'r asesiad dilynol o BPA gan y BfR yn 2023. Cyhoeddwyd papur safbwynt ar BPA ym mis Mehefin 2024 yn egluro dull COT. Nid oedd y bisffenolau eraill na'r deilliadau bisffenol wedi'u cynnwys yn asesiad diogelwch COT. Fodd bynnag, ystyrir bod y teulu bisffenol ehangach yn perthyn yn strwythurol iawn i BPA fel rheol, ac felly maent yn codi pryderon tebyg. Chwaraeodd COT ran hanfodol wrth asesu'r dystiolaeth wyddonol ac argymell mesurau rhagofalus.

Ers hynny, mae'r UE wedi mabwysiadu Rheoliad y Comisiwn 2024/3190, sy'n gwahardd BPA, bisffenolau peryglus eraill a deilliadau bisffenol peryglus mewn FCMs. Daeth y Rheoliad hwn i rym ym mis Ionawr 2025 ac mae'n gymwys yng Ngogledd Iwerddon o dan drefniadau Fframwaith Windsor. Yn dilyn hyn, mae'r ASB yn cynnig dull gweithredu sydd â'r nod o atal amnewid â chemegau niweidiol tebyg, ac i gyd-fynd â'r dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf, a thrwy hynny wella diogelwch defnyddwyr ledled y DU.

## Safbwynt Gogledd Iwerddon

Yn ddiweddar, cyhoeddodd yr UE waharddiad ar BPA a bisffenolau tebyg eraill, sydd wedi bod ar waith ers mis Ionawr 2025. Mae'r gwaharddiad hwn yn nodi na chewch ddefnyddio BPA a chemegion eraill yn y teulu bisffenol ehangach mewn amrywiol ddeunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd fel plastigau, haenennau, gludyddion, a mwy. Mae Rheoliad y Comisiwn (EU) 2024/3190 yn gwahardd yn benodol ddefnyddio a masnachu BPA, ei halwynau, a bisffenolau peryglus eraill mewn deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd ledled yr UE. Mae hyn yn cynnwys eitemau fel resinau epocsi ar gyfer haenennau mewn caniau bwyd a diodydd metel, a phlastigau hirbarhaus ar gyfer poteli diod y gellir eu hailddefnyddio. Ar gyfer y rhan fwyaf o gynhyrchion, mae cyfnod pontio o

18 mis ar waith er mwyn  rhoi amser i'r diwydiant addasu i'r newidiadau. O dan drefniadau Fframwaith Windsor, mae'r gwaharddiad hwn ar BPA yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon.

## Opsiynau Polisi – Ystyriaethau

| Opsiwn | Crynodeb | Goblygiadau | Asesiad Rheoli Risg |
|---|---|---|---|
| **Opsiwn 1: Dim camau gweithredu ar unwaith** | Cynnal y status quo; caniatáu parhau i ddefnyddio BPA a'i analogau mewn deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd. | Iechyd y cyhoedd: Yn methu â lliniaru risgiau iechyd hysbys (er enghraifft ymyrwyr endocrin, gwenwyndra atgenhedlu) ac yn tanseilio ein hymrwymiad i sicrhau safonau diogelwch bwyd uchel.<br>Oedi rheoleiddiol: Byddwn ar ei hôl hi o ran datblygiadau rhyngwladol (er enghraifft, yr UE) gyda'r risg o gamalinio â phartneriaid masnachu allweddol.<br>Risg i enw da: Gall ddifetha ymddiriedaeth y cyhoedd mewn ymatebolrwydd rheoleiddio.<br>Ystyriaethau masnachol: Rhwystriad posib gyda phartneriaid masnachu llymach. | Lefel isel o ymyriad, lefel uchel o risg weddilliol.<br>Efallai'n amddiffynadwy dim ond fel sefyllfa dros dro tra bod angen rhagor o dystiolaeth neu fod angen mewnbwn rhanddeiliaid cyn cymryd camau gweithredu. |
| **Opsiwn 2: Gwahardd BPA yn unig** | Gwahardd defnyddio BPA mewn deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd ond caniatáu parhau i ddefnyddio analogau tebyg o | Lleihau'r risg yn rhannol: Wedi mynd i'r afael â risgiau BPA, ond gall analogau beri peryglon tebyg.<br>Ansicrwydd gwyddonol: Mae analogau'n dangos y potensial am ymyrwyr | Lefel gymedrol o ymyriad, ond ail-leoli'r risg yn hytrach na'i ddileu.<br>Gellir ei ystyried yn gyfaddawd tymor byr, nid yn ateb hirdymor. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ran strwythur (er enghraifft BPS, BPF). | endocrin mewn astudiaethau sy’n dod i’r amlwg.<br>Anghysondeb rheoleiddiol: Gall ymddangos yn anghyson os cyfyngir ar analogau yn ddiweddarach, gan olygu bod angen adolygu polisi ymhellach. | |
| **Opsiwn 3: Gwahardd BPA a’i analogau**<br>**(Opsiwn a ffefrir)** | Gwahardd BPA ac analogau tebyg o ran strwythur mewn deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd. | Lliniaru risg cynhwysfawr: Y lefel uchaf o ddiogelu iechyd y cyhoedd a hyder defnyddwyr.<br>Aliniad rheoleiddiol: Yn alinio Prydain Fawr â dulliau rhagofalus yn yr UE, Canada, a gwledydd eraill, gan gefnogi parhad masnach.<br>Cymhelliant i arloesi: Yn annog y diwydiant i fuddsoddi mewn dewisiadau amgen mwy diogel a chynaliadwy.<br>Heriau gweithredu: Angen ymgynghori â rhanddeiliaid, a threfniadau trosiannol | Lefel uchel o ymyriad, manteision uchel i iechyd y cyhoedd.<br>Yn cefnogi dull egwyddor rhagofalus. |

## Effeithiau

Mae’r tabl isod yn crynhoi’r prif effeithiau a ystyriwyd yn y gwaharddiad arfaethedig ar BPA a’i analogau mewn deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd:

| Maes Effaith | Prif ystyriaethau |
|---|---|
| **Amgylcheddol** | • Yn lleihau halogiad amgylcheddol o waredu a gweithgynhyrchu BPA.<br>• Yn cefnogi economi gylchol drwy ganiatáu defnyddio stoc bresennol i osgoi gwastraff. |

| | |
|---|---|
| **Masnach** | • Yn alinio Prydain Fawr â Rheoliadau'r UE/Gogledd Iwerddon i sicrhau cysondeb yn y farchnad. Gallai gwahaniaethau arwain at rwystrau masnachu, costau cydymffurfio uwch, a dull dameidiog yn y farchnad.<br>• Yn atal ein marchnadoedd mewnol rhag dod yn gyrchfan ar gyfer cynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio. |
| **Gwleidyddol** | • Wedi'i ddatblygu o dan fframwaith pedair gwlad y DU.<br>• Penderfyniadau terfynol i'w gwneud gan weinidogion yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. |
| **Hyfywedd Technegol** | • Mae'r diwydiant eisoes yn symud i ffwrdd o BPA.<br>• Gallai gwaharddiad gyflymu arloesedd mewn deunyddiau mwy diogel, ond gallai hefyd orfodi costau tymor byr ar fusnesau bach a chanolig<br>• Mae eithriadau ar gael lle nad yw dewisiadau amgen yn hyfyw eto.<br>• Mae amserlenni graddol yn cefnogi ailfformiwleiddio a chydymffurfiaeth. |
| **Buddiannau defnyddwyr** | • Yn diogelu iechyd y cyhoedd yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol o risgiau BPA.<br>• Yn cymhwyso egwyddor ragofalus i alluogi ymyrraeth amserol. |

# Atodiad B: Mesurau Trosiannol

**Ystyriaethau'r ASB ar gyfer mabwysiadu Cyfnodau Trosiannol a Rhanddirymiadau tebyg i'r rhai yn yr UE (yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon)**

Yng ngoleuni mabwysiadu Rheoliad (EU) 2024/3190 gan yr UE, sy'n cyfyngu ar ddefnyddio BPA a sylweddau cysylltiedig mewn FCMs, mae'r ASB yn cydnabod pwysigrwydd cynnal safonau uchel o ran diogelu iechyd y cyhoedd wrth sicrhau cysondeb rheoleiddiol ar gyfer busnesau sy'n gweithredu ar draws marchnadoedd y DU a'r UE.

I'r perwyl hwn, rydym yn cynnig mabwysiadu cyfnodau trosiannol tebyg gyda'r un dyddiad gorffen trosiannol sy'n cyfateb i'r rhai a nodir yn Rheoliad yr UE. Bydd hyn yn darparu dull strwythuredig o weithredu, sy'n seiliedig ar risg. Er y gallai rhywfaint o'r cyfnod trosiannol fod wedi dod i ben erbyn i ni weithredu'r gwaharddiad, disgwylir y bydd y rhan fwyaf o fusnesau eisoes wedi ailfformiwleiddio, a bydd y farchnad yn cydymffurfio i raddau helaeth.

Bydd y gweithrediad ym Mhrydain Fawr yn mynd rhagddo yn dilyn penderfyniad gweinidogol, gan sicrhau bod unrhyw newidiadau rheoleiddiol yn cael eu gwneud gyda goruchwyliaeth briodol ac yn unol â phrosesau polisi domestig.

Mae'r mesurau trosiannol wedi'u cynllunio i:

- sicrhau cysondeb i fusnesau sy'n gweithredu ar draws marchnadoedd Prydain Fawr, Gogledd Iwerddon a'r UE, gan leihau'r risg o ofynion sy'n gwrthdaro.
- darparu amserlenni clir er mwyn i'r diwydiant allu cynllunio gweithgareddau ailfformiwleiddio, caffael a chydymffurfiaeth.
- atal busnesau rhag gorfod bodloni dau set wahanol o reolau ar gyfer cynhyrchion tebyg, gan leihau straen gweinyddol ac ariannol.
- osgoi gwaredu'n ddiangen unrhyw stoc nad yw'n cydymffurfio yn yr UE a Gogledd Iwerddon, ond sy'n parhau i fod yn ddefnyddiadwy ym Mhrydain Fawr, gan gefnogi nodau economi gylchol.
- caniatáu amserlenni tebyg ar gyfer datblygu, profi a chymeradwyo dewisiadau amgen mwy diogel, yn enwedig mewn cymwysiadau cymhleth neu risg uchel.
- cydbwyso'r angen i ddiogelu iechyd y cyhoedd â realiti ymarferol cadwyni cyflenwi, cylchoedd gweithgynhyrchu ac ailosod seilwaith.

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu'r cyfnodau trosiannol arfaethedig ar gyfer gwahanol gategorïau FCMs, ynghyd â'r rhesymeg dros bob darpariaeth.

| Math o Ddeunydd / Achos Defnydd | Dyddiad Cau Trosiannol | Sail Cyfreithiol | Rhesymeg | Addasiad |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Eitemau terfynol untro a ddaw i gysylltiad â bwyd a weithgynhyrchwyd gyda BPA** | **20 Gorffennaf 2026** | Erthygl 11(1) | Yn caniatáu amser i weithgynhyrchwyr a busnesau bwyd ailfformiwleiddio cynhyrchion, diweddaru dogfennaeth cydymffurfio, a chlirio stoc bresennol heb darfu ar gadwyni cyflenwi. | Yn caniatáu parhau i osod eitemau sy’n cydymffurfio ar y farchnad tan y dyddiad hwn er mwyn cefnogi ailfformiwleiddio a chlirio stoc. |
| **Eitemau untro ar gyfer cadw ffrwythau, llysiau neu gynhyrchion pysgodfeydd** | **20 Ionawr 2028** | Erthygl 11(2)(a) | Yn cydnabod yr anhawster technegol o ran disodli haenau sy’n seiliedig ar BPA mewn cymwysiadau bwyd asidig neu olewog. Yn darparu amser ar gyfer arloesi a chymeradwyaeth reoleiddiol o ddewisiadau amgen diogel. | Yn cydnabod yr heriau technegol o ran disodli haenau sy’n seiliedig ar BPA mewn cymwysiadau bwyd asidig neu olewog. |
| **Eitemau untro gyda haenau sy'n seiliedig ar BPA wedi'u rhoi ar yr wyneb metel allanol yn unig** | **20 Ionawr 2028** | Erthygl 11(2)(b) | Mae’r rhain yn eitemau cost uchel, hir-sefydlog a ddefnyddir ym maes cynhyrchu bwyd diwydiannol. Byddai eu disodli ar unwaith yn faich economaidd ac yn gymhleth o ran y logisteg | Mae’r risg mudo yn fach iawn oherwydd cymhwysiad allanol; mae’r dyddiad cau estynedig yn cefnogi cael gwared ar stoc yn raddol. |
| **Eitemau cyswllt bwyd terfynol aml-dro wedi'u cynhyrchu â BPA** | **Rhoi ar y farchnad gyntaf: 20 Gorffennaf 2026** | Erthygl 12 | Yn atal gwastraff diangen ac yn cefnogi cynaliadwyedd. Yn sicrhau y gellir | Yn adlewyrchu oes silff hir a chostau adnewyddu uchel ar gyfer |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ar y farchnad tan 20 Ionawr 2029** | | defnyddio cynhyrchion sy'n cydymffurfio sydd eisoes ar y farchnad yn effeithlon heb gosbi busnesau. | offer gwydn a ddefnyddir wrth gynhyrchu bwyd. |

## Atodiad C: Rhanddirymiadau

Er mai'r rheol gyffredinol yw gwahardd defnyddio BPA a'i analogau mewn FCMs, mae rhanddirymiadau penodol, hynny yw eithriadau cyfyngedig hefyd wedi'u cynnwys. Mae'r rhanddirymiadau wedi'u cynllunio i ddarparu ar gyfer defnyddiau critigol lle nad oes dewisiadau amgen hyfyw ar gael ar hyn o bryd a lle gellir rheoli risg yn fanwl.

**Rhanddirymiadau Allweddol**

| Achos Defnydd | Math o Ddeunydd | Amodau ar gyfer Rhanddirymiad | Rhesymeg |
|---|---|---|---|
| **Cynulliadau pilen hidlo polysulfone** | Plastigau | Gellir defnyddio BPA fel monomer neu sylwedd cychwynnol. Ni ddylid gallu canfod y mudo (terfyn: 1 μg/kg). Rhaid glanhau a fflysio eitemau terfynol cyn iddynt ddod i gysylltiad â bwyd. | Defnyddir y pilenni hyn mewn systemau hidlo critigol (er enghraifft cynnyrch llaeth, diodydd) lle nad yw dewisiadau amgen heb BPA yn dechnegol ymarferol eto. |
| **Resinau epocsi hylif ar gyfer cynwysyddion mawr** | Farneisiau a gorchuddion | Gellir defnyddio BPA mewn FCMs hunangynhaliol neu eitemau sydd â chynhwysedd >1000 litr. Mae'r un amodau mudo a glanhau yn berthnasol. | Mae'r rhain fel arfer yn danciau ar raddfa ddiwydiannol a ddefnyddir wrth brosesu bwyd. Byddai eu disodli yn faich economaidd ac yn gymhleth yn ymarferol. |

**Nodiadau Ychwanegol ar Randdirymiadau**

Nid yw'r rhanddirymiadau hyn yn eithriadau cyffredinol. Maent yn amodol ar y canlynol:

- Terfynau mudo llym (heb eu canfod ar 1 μg/kg)
- Glanhau cyn defnyddio'r eitem terfynol
- Eu defnyddio mewn cymwysiadau penodol, rheoledig yn unig.

## Atodiad D: Amserlen Gwahardd BPA

| Carreg filltir | Dyddiad amcangyfrifedig | Manylion |
|---|---|---|
| **Lansio'r ymgynghoriad** | 2 Hydref 2025 | Ymgynghoriad cyhoeddus yn agor ar y gwaharddiad arfaethedig ar BPA a bisffenolau cysylltiedig mewn deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd, gan gynnwys cwmpas, rhanddirymiadau (Atodiad B), a mesurau trosiannol. |
| **Yr ymgynghoriad yn dod i ben** | 24 Rhagfyr 2025 | Daw'r cyfnod ymgynghori 12 wythnos i ben. Adolygu a chrynhoi ymatebion rhanddeiliaid. |
| **Cwblhau gwaith polisi** | Ionawr – Chwefror 2026 | Cytuno ar y safbwynt polisi terfynol, gan ymgorffori adborth yr ymgynghoriad. |
| **Mesurau gweinyddol** | Chwefror – Mawrth 2026 | Diweddaru cofrestr plastigau FCM i gael gwared ar BPA a bisffenolau sy'n gysylltiedig o ran strwythur, ac adlewyrchu unrhyw randdirymiadau. |
| **Drafftio'r Offeryn Statudol** | Mawrth – Mai 2026 | Paratoi'r Offeryn Statudol er mwyn: ddiwygio Erthygl 6 o Reoliad a gymathwyd 10/2011, mewnosod cymal rhanddirymiad a dirymu Rheoliad a gymathwyd 2018/213. |
| **Cymeradwyaeth weinidogol a gosod yr Offeryn Statudol** | Ebrill – Mai 2026 | Gosod yr Offeryn Statudol gerbron y Senedd yn dilyn cymeradwyaeth weinidogol. Efallai y caiff yr amseru ei addasu i sicrhau ymgysylltiad â gweinidogion newydd ar ôl yr etholiad yng Nghymru. |
| **Yn dod i rym** | Canol i ddiwedd 2026 | Y gwaharddiad yn dod i rym, gyda mesurau trosiannol wedi'u cynnwys yn yr Offeryn Statudol er mwyn caniatáu amser i'r diwydiant gydymffurfio. Er y gallai rhai o derfynau amser trosiannol yr UE fod wedi mynd heibio, disgwylir y bydd y rhan fwyaf o fusnesau eisoes wedi ailfformiwleiddio, a bydd y farchnad wedi dod i gydymffurfio i raddau helaeth. |

Mae’r amserlen hon yn sicrhau:

- Proses ddeddfwriaethol un cam, yn gyson â dull yr UE.
- Digon o amser ar gyfer dadansoddi’r ymgynghoriad, mireinio polisïau a drafftio deddfwriaethol.
- Llwybr clir i wneud penderfyniadau gweinidogol a’u gweithredu.

**Noder** mai amserlen dros dro yw hon ac mae’n bosib y bydd yn newid, gan y gallai ambell ddyddiad neu gam gweithredu amcangyfrifedig ddod i ben neu newid yn dibynnu ar flaenoriaethau polisi ac amserlenni gweithredu sy’n datblygu.

## Atodiad E: Rhestr o bartïon â buddiant

Llywodraeth Cymru

Ffederasiwn Bwyd a Diod Cymru

Consortiwm Manwerthu Prydain

Canolfan Diwydiant Bwyd ZERO2FIVE

Canolfan Technoleg Bwyd

Canolfan Bwyd Cymru

**Lloegr**

Cymdeithas Gweithgynhyrchwr Pecynnu Metel (MPMA)

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra)

Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC)

Ffederasiwn Plastigau Prydain (BPF)

Ffederasiwn Gorchuddion Prydain (BCF)

Consortiwm Manwerthu Prydain (BRC)

Ffederasiwn Bwyd a Diod (FDF)

Cymdeithas Diodydd Meddal Prydain (BSDA)

ChemTrust

Canser y Fron y DU

Fidra

Campden BRI

Plastics Europe

Pwyllgor y DU (COT)

Grŵp Arbenigol ar y Cyd ar Ddeunyddiau a Ddaw i Gysylltiad â Bwyd (FCMJEG)

Crown Packaging

**Gogledd Iwerddon**

Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon

Ffederasiwn Bwyd a Diod Gogledd Iwerddon

Consortiwm Manwerthu Gogledd Iwerddon

Invest NI

CAFRE

QUB

Cymdeithas Polymerau Gogledd Iwerddon